OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2008 Rhif 2691 (Cy.239)

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

## PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU

## Rheoliadau Datgymhwyso rhag Gofalu am Blant (Cymru) (Diwygio) 2008

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *8 Hydref 2008* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *10 Hydref 2008* |
| *Yn dod i rym - -* | *3 Tachwedd 2008* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 68(1) a (2), 79C (2) a (3), 79M (1)(c) a 104(4) o Ddeddf Plant 1989 a pharagraff 4 o Atodlen 9A iddi(**1**).

### Enwi a chychwyn

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Datgymhwyso rhag Gofalu am Blant (Cymru) (Diwygio) 2008 a deuant i rym ar 3 Tachwedd 2008.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

### Diwygio Rheoliadau Datgymhwyso rhag Gofalu am Blant (Cymru) 2004

**2.**—(1) Diwygir Rheoliadau Datgymhwyso rhag Gofalu am Blant (Cymru) 2004(**2**) yn unol â darpariaethau canlynol y rheoliad hwn.

(2) Yn rheoliad 3 (dehongli)—

(a) hepgorer y diffiniad o "Tribiwnlys"

(b) mewnosoder y diffiniad a ganlyn yn y man priodol yn nhrefn yr wyddor —

(**1**) 1989 p.41. Cafodd swyddogaethau o dan adrannau 68(1) a (2), i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, eu trosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) a'u trosglwyddo wedi i Weinidogion Cymru drwy weithrediad paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adrannau 79C(2) a (3), 79M(1)(c) a 104(4) a pharagraff 4 o Atodlen 9A i Weinidogion Cymru drwy weithrediad paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

(**2**) O.S. 2004/2695 (Cy.235).

""y mae i'r ymadrodd "Tribiwnlys Haen Gyntaf" yr un ystyr ag sydd i'r ymadrodd "*First-tier Tribunal*" yn Neddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodi 2007"(**3**)

(3) Yn Atodlen 1, Rhan 1, paragraffau 1 a 2 yn lle "Tribiwnlys", ym mhob man, rhodder "Tribiwnlys Haen Gyntaf".

*Jane Hutt*
Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru

8 Hydref 2008

(**3**) 2007 p.15.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Datgymhwyso rhag Gofalu am Blant (Cymru) 2004 ("Rheoliadau 2004").

Mae Rheoliadau 2004 yn gwneud darpariaeth ar gyfer yr amgylchiadau pan fo person wedi'i ddatghymwyso rhag maethu plentyn yn breifat ac yn gosod categorïau o bersonau sydd wedi'u datghymwyso rhag cofrestru yng Nghymru fel gwarchodwyr plant neu ddarparwyr gofal dydd. Mae'r categorïau o bersonau sydd wedi'u datghymwyso fel hyn o dan Reoliadau 2004 yn cynnwys person a ddyfarnwyd yn euog o dramgwyddau a bennir yn yr Atodlen i Reoliadau 2004 ac eithrio pan fo'r person hwnnw wedi apelio yn erbyn ei orchymyn datgymhwyso a bod y corff yr apelir iddo wedi penderfynu nad yw'r person hwnnw i fod yn ddarostyngedig mwyach i'r gorchymyn datgymhwyso. O dan Reoliadau 2004 gwnaed apelau yn erbyn gorchmynion datgymhwyso i'r Tribiwnlys a sefydlwyd gan adran 9 o Ddeddf Amddiffyn Plant 1999 ("y Tribiwnlys").

Yn unol â Deddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodi 2007 trosglwyddwyd swyddogaethau presennol y Tribiwnlys i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf ac mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 2004 yn unol â hynny. Maent yn darparu y bydd unrhyw gyfeiriad at "y Tribiwnlys" yn Rheoliadau 2004 yn cael ei ddisodli gan gyfeiriad at y Tribiwnlys Haen Gyntaf ac mae'n mewnosod diffiniad o'r Tribiwnlys Haen Gyntaf yn erthygl 3 o Reoliadau 2004.